# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# MATTHEW PARIS

**Paham ‘rydym am wybod am Matthew Paris?**

**Mae diddordeb gennym yn ei ddisgrifiad, a’i ddarlun,yn dangos Cymro yn lladd Herbert FitzMatthew mewn brwydr. Ni wyddys lle yn union y digwyddodd hyn, ond mae’n bosibl ei fod ar, neu ger, Mynydd Dinas.**

**Paham roedd wedi ysgrifennu am y digwyddiad hwn?**



Hunan-bortread o Matthew Paris o’r llawysgrig gwreiddiol o’i Historia Anglorum (Llundain, y Llyfrgell Brydeinig, MS Royal 14.C.VII, folio 6r
Y parth gyhoeddus, via Wikimedia Commons

Roedd y Saes Matthew Paris, yn fynach Benedictaidd, yn groniclydd, yn artist yn cynhyrchu llawysgrifau goleuedig ac yn gartograffydd (un sy’n gwneud mapiau) wedi’i leoli yn Abaty Sant Alban yn Swydd Hertford.

Roedd hefyd yn cael ei adnabod fel Matthew Paris. Efallai bod hyn oherwydd iddo dderbyn ei addysg ym Mharis, er ei fod wedi’i eni yn Lloegr.

Ysgrifennodd llyfrau hanes, mewn cyfnod pan roedd pob llyfr yn cael ei ysgrifennu â llaw. 700 mlynedd yn ddiweddarach. Ysgrifennodd rhai o’i lyfrau yn Lladin ac eraill yn Eingl-Normanaidd neu farddoniaeth Ffrengig.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd yn byw tua 1200 – 1259 yn ystod teyrnasiad y Brenin Seisnig Harri'r III a'r arweinydd Cymreig Llywelyn ap Gruffudd, a elwir *Llywelyn the Last* yn Saesneg, neu Llywelyn Ein Llyw Olaf yn Gymraeg.

Mae'r haneswyr yn hoff o'i ysgrifennu, yn rhannol oherwydd ei fod yn defnyddio llythyrau a sgyrsiau gyda'r brenin Harri'r III ac eraill. Roedd y brenin yn gwybod bod Paris wrthi'n ysgrifennu hanes, ac am iddo fod mor gywir â phosib.

Yn 1257, pan yn ymweld ag Abaty Sant Alban, roedd Harri wedi sgwrsio gydag ef drwy'r dydd a'r nos ac wedi "llywio fy sgrifbin" meddai Paris, "gyda llawer o ewyllys da a diwydrwydd".

Roedd Matthew Paris yn mynegi ei farn ei hun am frenhinoedd ac, ambell waith, yn newid ei feddwl.

Dyma lun o'r Brenin Harri'r III o Loegr. Nid oes gennym lun o'r Tywysog Llywelyn. Yn eich barn chi, paham mae hynny?



Gan Anhysbys - Cotton Vitellius A. XIII, y Parth Cyhoeddus, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=4930571


# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd Matthew Paris yn artist da, er efallai nad oedd wedi derbyn hyfforddiant. Roedd artistiaid ei gyfnod fel arfer yn ddi-enw, felly ‘rydym yn gwybod mwy amdano ef nag y gwyddwn am oleuwyr Seisnig eraill y cyfnod.

Byddai fel arfer yn gosod ei lun, a oedd wedi’i liwio, ar dop y dudalen, fel y llun hwn o Offa o Fersia mewn llyfr hanes.



Offa o Fersia o hanes Sant Alban gan Matthew Paris. Mae’n ymweld yn un-ochrog, oherwydd bod y ffoto wedi’i gymryd yn syth o’r llyfr.



Richard Marshal yn taflu Baldwin Guines o’i geffyl mewn ysgarmes -gan Matthew Paris

Cambridge, Corpus Christi College Library, vol 2, p. 85. MS 16, fol. 88r Wikimedia Commons


Ond, ambell waith, byddai’n eu gosod ar ymyl y ddalen, fel dwdl. Mae ei hunan-bortread ar y dudalen gyntaf yn un o’r brasluniau hyn.

Mae’r braslun hwn o bobl yn ymladd hefyd ar ymyl tudalen.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd Matthew Paris hefyd wedi dylunio mapiau, pedwar ohonynt o Brydain, fel roedd pobl y cyfnod yn ei gweld hi.

Roedd hefyd wedi dylunio mapiau o lwybrau’r pererinion i Rufain; lluniodd y rhain yn debyg i stribed comig i ddarlunio taith y pererin – rhywbeth na wnaeth unrhyw un arall.



Gan Matthew Paris - The Becket Leaves (La vie de Seint Thomas de Cantorbéry), gwefan C.J.Birkett's Becket Leaves ar Angelfire: webpage, file, Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=31883931



Map mwyaf datblygedig o’r pedwar map o Brydain gan Matthew Paris (Cotton MS Claudius D VI, fol. 12v).
MS Claudius D VI, fol. 12v British Library
Public Domain

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Mae hyd yn oed naturiaethwyr cyfoes o’r farn ei fod yn ddarluniwr da o fywyd gwyllt, a gallwn ddysgu ganddo am gyflwr bywyd gwyllt yn Lloegr yn y cyfnod hwnnw.

Roedd wedi disgrifio dyfodiad y Croesbig Cyffredin yn 1254, aderyn sydd erbyn hyn yn gyffredin ledled Prydain.



Ffotograff gan Hugh Venables
CC BY-SA 2.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>, via Wikimedia Commons



Eliffant Louis IX o Ffrainc , anrheg i Harri’r III o Loegr . Darlun o *Chronica Majora* II, Coleg Corpus Christi, Caergrawnt
Y parth gyhoeddus

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Matthaei Paris Chronica Maiora II Parker Library, Corpus Christi College, Caergrawnt. https://parker.stanford.edu/parker/catalog/qt808nj0703 P376

Ond y darlun sydd o ddiddordeb i ni yw'r un sy'n dylunio'r milwr Normanaidd yn brwydro'r Cymry yn Afan Wallia.

Beth yn union sy'n digwydd?

Dyma gyfiethiad o ddisgrifiad Matthew Paris o'r digwyddiad hwn:

'Pan ddaeth marchogion dewr y Saeson a oedd yn byw ar y ffin  i'w gwrthwynebu , diangodd y Cymry ,yn  ôl eu harfer,i lefydd anhygyrch yn y mynyddoedd yn barod i rwystro eu gelynion. O ben y creigiau, taflasant gerrig ag arfau, gan anafu llawer o Saeson.Un ohonynt oedd un o foneddigion y Saeson ,sef Herbert Fitz-Matthew a orchfygwyd gan lwyth o gerrig,gan dorri ei wddwf a'i wasgu i farwolaeth.'

Edrychwch ar y gwahaniaeth yn nillad y ddau filwr. Yn eich barn chi, pwy fyddai'n fwyaf tebygol o oroesi?

Testun wedi'i addasu o Wikipedia.
Gallwch weld esiamplau eraill o'i waith yn:
https://thehistoryofengland.co.uk/resource/drawings-of-matthew-paris/